**ADRODDIAD I'R CABINET**
**8 HYDREF, 2013**

**Aelod Cabinet: Dirprwy Arweinydd y Cyngor, Sian Gwenllian**

**Pwnc: Adroddiad Blynyddol y Panel Rhiant Corfforaethol**

**Swyddog Cyswllt: Rhoslyn Prys**

---

**Y penderfyniad a geisir**

Cymeradwyo cynnwys yr Adroddiad Blynyddol a'r Rhaglen Waith.

---

**Barn yr aelod lleol**

Ddim yn fater lleol

---

**Cyflwyniad**

Mae cyfrifoldeb statudol clir ar y Cyngor fel "rhiant corfforaethol" i blant sydd mewn gofal ac mae disgwyliad clir ar bob Cyngor i ymarfer y rôl honno'n briodol fel "pe tai'n blentyn i mi".

Mae'n bwysig cofio bod y cyfrifoldeb rhianti ar y Cyngor cyfan, ond mae rôl penodol i'r Panel Rhiant Corfforaethol i gymryd trosolwg o les a buddiannau'r plant hyn.

Mae'n ofynnol llunio adroddiad blynyddol sydd yn disgrifio'r gefnogaeth a roddir yn nhermau llais plant a phobl ifainc, y ddarpariaeth gwasanaeth, lleoliadau a nifer o faterion eraill a welir yn yr adroddiad sydd ynghlwm.

Yn ogystal â'r adroddiad ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni, elfen allweddol o'r papurau yw'r rhaglen waith sydd yn nodi'r meysydd sydd i gael sylw dros y misoedd nesaf.

**Rhesymau dros yr Argymhelliad**

Mae cefnogaeth gorfforaethol y Cabinet yn ran bwysig o ymrwymiad y Cyngor tuag at y cyfrifoldeb statudol sydd arno.  Nid mater un adran yw'r cyfrifoldeb hyn a gwahoddir y Cabinet i ddangos y gefnogaeth hynny.

**Ystyriaethau Perthnasol**

Wrth bwyso a mesur yr hyn sydd yn y rhaglen waith, mae'n briodol ystyried y materion capasiti sydd yn codi ohonnynt. Mae'r rhaglen waith wedi ei drafod a'i gytuno yn fewnol cyn ei gyflwyno i'r Cabinet ac mae'r adnoddau angenrheidiol i wireddu'r rhaglen waith yn eu lle.

**Argymhelliad**

Argymhellir bod y Cabinet yn cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r rhaglen waith sydd ynghlwm iddo.

**Sylwadau'r Swyddogion Statudol**

**Y Prif Weithredwr**

"Mae'n allweddol bod y Cyngor yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb rhianti corffraethol. Mae i'r Cabinet gymeradwyo'r adroddiad yn elfen bwysig o hynny ond dim ond rhan o'r darlun yw hyn. Mae cyfrifoldeb clir nawr i symud ymlaen i weithredu ar yr ymrwymiadau yn y Rhaglen Waith."

**Y Swyddog Monitro**

"Panel sy'n cefnogi'r Cabinet yn y dasg o gyflawni swyddogaethau'r Cyngor fel rhiant i blant mewn gofal ydi'r Panel Rhiant Corfforaethol ac mae'n gwbl briodol felly fod y Cabinet yn ystyried ac yn derbyn adroddiad ganddo yn flynyddol. Bydd y Cabinet angen bodloni ei hun fod y Panel yn cyfarch y materion cywir yn yr adroddiad a'r rhaglen waith."

**Y Pennaeth Cyllid**

"Gan fod y paragraph *"ystyriaethau"* cyn yr argymhelliad yn yr adroddiad hwn yn nodi fod *"adnoddau angenrheidiol i wireddu'r rhaglen waith yn eu lle",* does gen i ddim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol".